**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf JMEWL/00982/22

Mr Dafydd Gibbard
Prif Weithredwr
Cyngor Gwynedd

anwenmairjones@gwynedd.llyw.cymru

13 Mehefin 2022

Annwyl Mr Gibbard,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Mai 2022 ynghylch cyfieithu ar y pryd.

Mae gan Lywodraeth Cymru gynlluniau cadarn nid yn unig i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg, ond hefyd i ddyblu defnydd y Gymraeg gan ei siaradwyr, fel y nodir yn strategaeth y Gymraeg, *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr*. Mae dyletswydd arnom o dan Safonau'r Gymraeg i ofyn am ddewis iaith mynychwyr i gyfarfodydd a drefnir gan Lywodraeth Cymru. Byddwn yn darparu adnodd cyfieithu i'r rheiny nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg os ydy cyfradd o fynychwyr y cyfarfod sydd yn siaradwyr Cymraeg wedi ymateb eu bod yn awyddus i ddefnyddio'r iaith yn y cyfarfod.

Mae'n bwysig ein bod yn defnyddio adnodd cyhoeddus prin yn y ffordd fwyaf darbodus ymhob maes ac mae sut rydym yn blaenoriaethau cyfieithu ar y pryd wedi'i gytuno gyda Chomisiynydd y Gymraeg. Mae'r trefniant hwn yn ein galluogi i wneud y defnydd gorau posibl o'r adnodd hynny, a'i ddefnyddio mewn modd sy'n golygu ei fod yn cael y mwyaf o effaith o ran defnydd y Gymraeg.

Wrth drefnu cyfarfodydd mae'n staff yn cael eu hannog i ddefnyddio crebwyll, ac mae mynychwyr o sefydliadau sydd yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o'r ystyriaethau hynny, ynghyd â thestun y cyfarfod a'i leoliad.

Fe soniwch yn benodol am gyfarfodydd yn ymwneud â phandemig y coronafeirws a sefyllfa Wcráin yn eich llythyr. Mae eithriadau gan gyrff eraill rhag gweithredu rhai o ddyletswyddau Safonau'r Gymraeg wrth ymateb i argyfyngau (yn rhinwedd eu categoreiddio fel ymatebwyr categori 1 yn y Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004). Nid yw'r eithriadau yma yn berthnasol i lywodraethau canolog ond o ystyried ein profiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf byddwn yn trafod priodoldeb y sefyllfa hwn i gorff sydd wedi arwain yn genedlaethol ar ein hymateb i'r argyfyngau yma.

Cyn bo hir hefyd, mi fydd canlyniad ein partneriaeth ddiweddaraf gyda Microsoft ym myd technoleg iaith yn gweld golau dydd. Mi fydd ein cydweithredu'n golygu bod cyfleuster

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cyfieithu ar y pryd ar gael a fydd yn galluogi hyd yn oed fwy ohonom i ddefnyddio’n hiaith mewn cyfarfodydd Teams.  Bydd hynny ar gael fel rhan o drwydded Teams arferol heb unrhyw gost ychwanegol ac yn gallu cael ei ddefnyddio ar gyfer ieithoedd eraill hefyd. Dyma achos o Gymru a’r Gymraeg yn arwain datblygiad a fydd yn cynyddu’r defnydd o ieithoedd ledled y byd.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg